**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau'r Panel Perfformiad Craffu – Ysgolion

**Ystafell Bwyllgor 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 17 Rhagfyr 2018 am 4.30pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd M Sykes (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | L S Gibbard |
| B Hopkins | L James | S M Jones |
| L J Tyler-Lloyd | | |

**Aelod Cyfetholedig**
A Roberts

**Hefyd yn bresennol**
Jennifer Raynor — Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Pennaeth Cyflawniad Addysg a Phartneriaeth |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |
| Brian Roles | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |
| Kelly Small | Pennaeth yr Uned Ariannu a Gwybodaeth |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: A M Day, S J Gallagher, F M Gordon, L R Jones ac M A Langstone
Aelod Cyfetholedig: D Anderson-Thomas

---

## 1 Datganiadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Datganodd y Cyng. Mo Sykes gysylltiad personol a rhagfarnol ag Eitem 4 a gadawodd yr ystafell am yr eitem honno.

Cadeiriodd y Cyng. Louise Gibbard Eitem 4.

## 2 Proses Craffu Cyn Penderfynu ar Drefniadaeth Ysgolion sy'n gysylltiedig â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Ysgol Gynradd Felindre)

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb gydag Aelod y Cabinet a swyddogion ynghylch y cynigion i'r Cabinet, daeth y panel i'r casgliadau canlynol:

Cwblhawyd ymgynghoriad llawn ac ymdriniwyd â'r materion yn llawn.
Mae cau Felindre'n rhan o Gynllun Addysg Gymraeg ehangach a thymor hwy a fydd o fudd i ddisgyblion yn Abertawe yn y tymor hwy.
Mae'r holl ysgolion Cymraeg amgen yn cynnig addysg dda.
Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn dod o'r tu hwnt i ddalgylch Felindre felly ni fydd cau'r ysgol yn cael llawer o effaith ar y gymuned; mae gan y gymuned neuadd bentref ffyniannus.

Mae'r panel felly'n derbyn, er yn gyndyn, y cynigion i'r Cabinet fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad, gan gytuno y dilynwyd proses briodol, bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi asesu effaith y cynigion, y cafwyd lefel uchel o ymgynghori a bod pob opsiwn arall wedi cael ei archwilio cyn penderfynu cau'r ysgol.

**3 Proses Craffu Cyn Penderfynu ar Adolygiad o Ysgolion Bach (Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc)**

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb gydag Aelod y Cabinet a swyddogion ynghylch y cynigion i'r Cabinet, daeth y panel i'r casgliadau canlynol:

Teimla'r panel y cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ac adolygwyd ac ailystyriwyd pob opsiwn yn seiliedig ar hyn.
Rhannodd y panel y pryder fod yr ysgol wedi bod i mewn ac allan o'r categori Ambr am lawer o'r pum mlynedd diwethaf ac na wnaed gwelliannau sylweddol er mwyn gwella deilliannau yn yr ysgol. Mae'r panel felly'n cydnabod y bydd Ysgol Gynradd Clydach yn darparu deilliannau a chyfleoedd addysgol gwell i ddisgyblion yn seiliedig ar ei pherfformiad addysgol presennol.
Mae cynghorwyr hefyd yn deall y cymhlethdodau yn nalgylch yr ysgol gydag ysgol gynradd ffydd ac ysgol gynradd Gymraeg gerllaw. Rydym wedi derbyn nad yw niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc, yn seiliedig ar ragfynegiadau, yn debygol o gynyddu yn y tymor byr neu ganolig.
Roeddem yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd o ran plant yn defnyddio cludiant ysgol ond rydym yn fodlon y bydd yr un rhagofalon ar waith â'r hyn a geir mewn ysgolion eraill pan fydd disgyblion ar eu pennau eu hunain.
Mae'r panel hefyd yn deall pwysigrwydd sicrhau bod Abertawe'n gwneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o adnoddau er lles pob disgybl yn ardal yr awdurdod lleol.
Mae'r panel felly'n derbyn, er yn gyndyn, y cynigion i'r Cabinet fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad, gan gytuno y dilynwyd proses briodol, bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi asesu effaith y cynigion, y cafwyd lefel uchel o ymgynghori a bod pob opsiwn arall wedi cael ei archwilio cyn penderfynu cau'r ysgol.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.20pm